Adnabod Bardd

Eurig Salisbury

Bardd Plant Cymru 2011–2013

Un o'r pethau gorau am eiriau yw ei bod hi mor anhygoel o hawdd eu mwynhau nhw. Meddylia am ddwy eiliad – beth sy ei angen arnat er mwyn medru mwynhau geiriau? A oes angen sgrin fawr, fawr, fel sy ei hangen er mwyn mwynhau ffilm? A oes angen sgrin fach, fel sy ei hangen er mwyn mwynhau rhaglen deledu? A oes angen teclyn i wrando, fel sy ei hangen er mwyn mwynhau cerddoriaeth? Beth am bapur, hyd yn oed? Na, yr unig beth sy ei angen mewn gwirionedd yw ... dychymyg. A siawns fod gan bawb un o'r rheini!

Pan fydda i wedi diflasu'n llwyr wrth aros am drên sy'n hwyr, neu'n gwrando ar rywun anniddorol iawn, iawn yn siarad, mi fydda i'n dechrau chwarae â geiriau yn fy mhen. Fydda i ddim yn amharu ar neb, oherwydd all neb fy nghlywed i'n meddwl. Fydda i ddim yn gwneud unrhyw sŵn, dim ond meddwl am eiriau'n dawel bach nes fy mod i wedi anghofio'n llwyr am yr holl ddiflastod. Does dim angen papur arna i, na phensil, na ffôn, na chyfrifiadur – dim byd ond dychymyg.

Pan oeddwn i yn yr ysgol uwchradd roedd gen i daith hir a diflas i'w gwneud ar y bws bob bore a nos. Ond gan fod bachgen arall ar yr un bws â mi hefyd yn hoffi chwarae â geiriau – dyna gael gwared ar y diflastod yn llwyr! Bob dydd mi fyddwn i'n creu llinell gyda geiriau yn fy mhen. Wedyn byddai fy ffrind yn mynd ati i ateb y llinell honno. Ac wedyn byddai fy ffrind yn gosod llinell i mi ei hateb, ac yn y blaen. Yn fuan iawn fe ddôi'n amser i fy ffrind adael y bws, a minnau'n flin na fyddai'r daith yn hirach!

Felly, cofia y gelli di chwarae â geiriau ble bynnag yr wyt ti – os oes gen ti ddychymyg, hynny yw!

Llyfrau barddoniaeth gan Eurig Salisbury:

Sgrwtsh! £4.99 Gomer
Llyfr Glas Eurig £6.00 Barddas

Llyfrau i blant wedi eu haddasu gan Eurig Salisbury:

Rhyfel Mawr y Pants £5.99 Gomer
Antur Fawr Panta Clôs £5.99 Gomer

Adnabod Bardd

Eurig Salisbury

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais i fy ngeni yng Nghaerdydd ac ro'n i'n byw yn yr Eglwys Newydd tan o'n i'n chwech oed, pan symudodd y teulu i Langynog, ger Caerfyrddin.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Gynradd Melin Gruffudd, Ysgol Gynradd y Dderwen, Ysgol Gyfun Bro Myrddin a Phrifysgol Cymru Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Ro'n i'n hoffi bod yng nghwmni fy ffrindiau, ond do'n i ddim wastad yn fachgen da! Dwi'n cofio cael mwy nag un stŵr.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Indiana Jones.

Pa rai oedd eich hoff lyfrau yn blentyn? Rhyw lyfr am ddeinosoriaid, mae'n siŵr, ond ro'n i'n hoff iawn o'r ***Chronicles of Narnia*** hefyd.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Darllen am bob dim (fwy neu lai), chwarae pêl-droed, bwyta omledi a chanu caneuon wrth yrru'r car (pan fydda i ar fy mhen fy hun).

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Cwmni da a brecwast mawr.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Hysbysebion ar y teledu!

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Wrth ddarllen cerddi mewn gwersi Cymraeg a minnau'n dair ar ddeg neu'n bedair ar ddeg oed – roedd fy ngherddi cyntaf yn reit wael (os medri di eu galw nhw'n gerddi) ond ro'n i'n benderfynol y byddwn i'n llwyddo yn y pen draw.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? Cyfrol o farddoniaeth o'r enw ***Llyfr Glas Eurig***, am fod glas yn lliw sy'n cael ei gysylltu â bod yn ifanc.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu/farddoni? Pe bawn i'n ei chael hi'n hawdd, fyddai dim llawer o bwynt imi wneud! Mae wastad angen ymdrechu i greu cerdd dda, ond nid yw 'ymdrechu' cweit yr un peth â chael rhywbeth yn anodd i'w wneud.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? O lyfrau, cylchgronau a phapurau newydd.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Cymreictod, herio'r drefn ac, yn bennaf efallai, fy ngwallt.

Ydych chi wedi ennill unrhyw wobrau neu anrhydeddau? Enillais gadair Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun yn 2006, a dwi wedi dod yn ail deirgwaith yn olynol yng nghystadleuaeth y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol – y tro nesaf dwi am drio dod yn ail yn y gobaith y ca' i'r wobr gyntaf!

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu/barddoni? Bydd mor wreiddiol a gwahanol i bawb arall â phosib.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Hoffwn i pe na bawn i'n gorfod eillio cweit mor aml – mae fy mlew i'n tyfu'n llawer rhy gyflym!

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? Rhaglenni doniol fel ***The Simpsons***.

Beth yw eich hoff fwyd? Omled.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Popeth, yn y pen draw (ond pobol yn baglu a chwympo ar ***You've Been Framed*** yn arbennig).

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Yr amser gorau i roi jel yn eich gwallt yw yn syth bìn ar ôl ei olchi yn y gawod a'i sychu.

Lluniau: Keith Morris

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
llyfrau ar-lein books online

S4/C
www.s4c.co.uk/barddplantcymru

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

2011